
PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 11 MEHEFIN 2026

Presenoldeb:

Y CYNGHORWYR:

Elwyn Edwards, Beca Roberts, Berwyn Parry Jones, Delyth Lloyd Griffiths, Edgar Wyn Owen, Jina Gwyrfai, Elfed Williams, Arwyn Herald Roberts, Dafydd Davies, Wendy Cleaver, Elfed Powell Roberts, Gruffydd Williams, Robert Glyn Daniels, Peter Thomas a Stephen Churchman.

Swyddogion yn bresennol:

Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:

Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 8:

Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), yn ogystal â Gareth Jones, Roland Thomas a Gerwyn Jones (Pennaethiaid Cynorthwyol).

Yn bresennol ar gyfer Eitem 9:

Y Cynghorydd June Jones (Aelod Cabinet Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC), yn ogystal â Meirion Williams, Emlyn Jones (Pennaethiaid Cynorthwyol) a Nia Wyn Vaughan (Uwch Swyddog Prosiectau).

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Elfed Powell Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2026/27.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Beca Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2026/27.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Linda Morgan ac Annwen Hughes.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026, fel rhai cywir.

7. CYFARWYDDYD ERTHYGL 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phennaeth Cynorthwyol Amgylchedd.

Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol, bod pryderon am y nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a oedd yn bodoli yng Ngwynedd, a bod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno adroddiad yn manylu ar waith ymchwil yn y maes yma, i Lywodraeth Cymru yn 2020. Ymhelaethwyd bod yr adroddiad hwnnw yn gofyn am fesurau i fynd i'r afael â'r pryderon hynny, megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio er mwyn rheoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb, wedi cyflwyno newidiadau i'r gyfundrefn gynllunio yn 2022 a oedd yn creu tri dosbarth defnydd cynllunio newydd. Nodwyd bod y rhain yn diffinio 'prif gartref', 'ail gartref' a 'llety gwyliau tymor byr'. Ychwanegwyd eu bod hyn yn rhoi hawliau i newid o un dosbarth defnydd i'r llall heb yr angen am ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, eglurwyd bod modd i awdurdodau lleol fynd drwy broses i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardaloedd ble mae tystiolaeth bod nifer uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn effeithio'r ardal yn negyddol. Cadarnhawyd bod cyfarwyddyd Erthygl 4 yn declyn cynllunio sydd wedi cael ei ddefnyddio ers nifer o flynyddoedd i reoli mathau gwahanol o ddatblygiadau megis addasiadau i adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth neu i reoli defnydd o dai amlfeddiannaeth yn Lloegr.

Pwysleisiwyd nad oedd cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi cael ei ddefnyddio i geisio rheoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Cadarnhawyd mai Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod lleol cyntaf i ymgymryd â'r broses o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn ceisio rheolaeth well o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Pwysleisiwyd fod y Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gyflwyno'r cyfarwyddyd, gan sicrhau bod hyn yn cael ei cofnodi ar gofrestr risg yr Adran. Adroddwyd bod mesurau mewn lle i reoli'r risgiau cyn belled ag oedd yn rhesymol bosib, drwy gydol y broses.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y penderfyniad wedi cael ei wneud ym mis Mehefin 2023, i gyflawni'r broses o sefydlu cyfarwyddyd Erthygl 4 dros gyfnod o ddwy flynedd. Esboniwyd bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei hysbysebu am dros 12 mis er mwyn osgoi heriau iawndal. Adroddwyd bod y cyfarwyddyd wedi dod i rym yn 2024.

Manylwyd bod yr her gyfreithiol a gyflwynwyd yn ymwneud yn bennaf â'r ymgynghoriad cyhoeddus a gyflawnwyd, nid ar gyfer y broses o gyflwyno'r cyfarwyddyd.

Eglurwyd bod yr her gyfreithiol lwyddiannus yn nodi bod adroddiad wedi gwneud camargraff ar y Cabinet wrth iddynt benderfynu ar y mater, oherwydd newid materol oedd yn yr adroddiad. Ychwanegwyd bod peidio cynnwys y newid materol hwn o fewn y ddogfennaeth, yn ei wneud yn anghyflawn ac yn ymddangos yn gamarweiniol. Tynnwyd sylw bod newid materol yn elfen sylfaenol i'r maes cynllunio ac felly ni fyddai'r adroddiad yn gamarweiniol os yw'r gynulleidfa briodol yn deall y maes gwaith. Nodwyd

bod y Llys o'r farn nad oedd y Cabinet yn deall y maes gwaith, yn wahanol i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, er bod rhai o aelodau'r Cabinet gyda phrofiad o fynychu'r pwyllgor hwnnw fel Aelodau.

Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw gamarwain bwriadol na maleisus yn rhan o'r broses.

Tynnwyd sylw at Adran 31 Deddf Llysoedd Uwch sydd yn ystyried os byddai'r llys yn dod i gasgliad gwahanol, a fyddai hynny yn gwneud gwahaniaeth. Nodwyd o'r angen i'r Llys fod yn hyderus byddai'n 'debygol iawn' y byddai'r penderfyniad yn arwain i'r un lle er mwyn parhau i gyflwyno'r cyfarwyddyd. Eglurwyd bod y Llys wedi nodi mai 'tebygol' o arwain i'r un lle byddai'r achos hwn ac felly penderfynwyd nad oedd y cyfarwyddyd yn weithredol mwyach o'r herwydd.

Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cyflwyno cais i apelio'r penderfyniad hwn ond bod y cais hwnnw wedi cael ei wrthod.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Gofynnwyd am eglurder o ran diffiniadau nifer o dermau perthnasol megis y gwahaniaeth rhwng 'newid defnydd' ac 'newid defnydd sylweddol'. Ymhellach mynnwyd eglurder pellach ar sut roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cabinet wedi camarwain yr Aelodau yn sylweddol, yn nhyb y barnwr. Yn ogystal, fel holwyd os oedd unrhyw wahaniaethau yn nogfennaeth y cyfarfod hwn gyda'r dogfennaeth a gyflwynwyd i'r Cabinet wrth iddynt ddod i benderfyniad.

Mewn ymateb i ymholiad ar natur gamarweiniol yr adroddiad, pwysleisiodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet yn defnyddio geiriad statudol a'i fod yn ymdrech didwyll i gyflwyno gwybodaeth i'r Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2023. Eglurwyd y disgrifir yr adroddiad fel 'camarweiniol' oherwydd bod y Llys yn amlygu'r angen am lefel eglurhad uwch o wybodaeth i'r aelodau Cabinet. Atgoffwyd bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet yn un a oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater, ble roedd dros 3,000 o ymatebion wedi eu derbyn, gyda'r bwriad o gyflwyno adlewyrchiad teg o gynnwys yr ymatebion hynny. Ymhelaethodd y Pennaeth Cynorthwyol nad oedd yn rhesymol rhagweladwy i ddisgwyl her gyfreithiol i'r broses yn seiliedig ar y defnydd o'r eirfa "newid defnydd materol" yn gan fod yr adroddiadau wedi defnyddio'r un eirfa a'r statud a Pholisi Cynllunio Cymru. Manylwyd bod trefniadau wedi cael eu rhoi mewn lle i sicrhau bod adroddiadau yn cael eu hadolygu gan gynllunwyr profiadol, yr Adran Gyfreithiol a bargyfreithwyr cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Tynnwyd sylw bod holl ddogfennaeth cyfarfodydd y Cabinet ar y 13 Mehefin 2023 a'r 16 Gorffennaf 2024 yn parhau i fod yn gyhoeddus a'u bod wedi derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn flaenorol, yn ei gyfarfod ar y 09 Mawrth 2023 a'r 16 Mai 2024.

Gofynnwyd am ddata penodol am y gost ariannol o gyflwyno'r broses ac i ymateb i'r her gyfreithiol. Yn yr un modd, cwestiynwyd pam bod swyddogion wedi mynd ati i apelio'r penderfyniad o ystyried bod eu dogfennaeth yn ddiffygiol. Gwnaed cais i dderbyn crynodeb o fethiannau a arweiniodd at yr her gyfreithiol gan ofyn os oes unrhyw adolygiad neu prosesau disgyblu ar waith.

Mewn ymateb, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod costau cyfreithiol ar gyfer amddiffyn yr her gyfreithiol hon oddeutu £60,000. Pwysleisiwyd na ystyrir fod yr arian sydd wedi ei wario hyd yma yn wastraff o arian trethdalwyr oherwydd ei fod yn fuddsoddiad cadarn i'r dyfodol, ei fod wedi caniatáu i'r Cyngor ddatblygu arbenigedd ei swyddogion a'i fod wedi bod o gymorth sylweddol i awdurdodau eraill sydd yn ystyried neu wedi ymgymryd â'r broses o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4. Cydnabuwyd bod

gwersi wedi cael eu dysgu. Ychwanegodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod trefniadau'r Cyngor yn ei wneud yn ofynnol iddo fel y Swyddog Monitro ac i'r Pennaeth Cyllid, asesu priodoldeb adroddiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn, gan bwysleisio mai'r her gyfreithiol hwn yw'r tro cyntaf i her gyfreithiol ddod ymlaen yn dilyn y drefn hon. Pwysleisiwyd bod y penderfyniad i amddiffyn achos cyfreithiol yn cael ei wneud yn ofalus ac ar amserlen dynn iawn. Ymhelaethwyd bod gwaith cloriannu yn cael ei gymryd o ddifri er mwyn sicrhau bod amddiffyniad cryf yn cael ei ddatblygu. Nodwyd hefyd bod bargyfreithwyr ar gyfer amddiffyn her gyfreithiol yn cael eu dewis yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn meddu â'r sgiliau a phrofiad penodol, megis Cwnsler y Brenin (KC), a bod asesiad manwl yn cael ei roi i unrhyw gyngor a dderbynnir.

Ymholwyd os yw'r Cyngor wedi addasu ei drefniadau mewn unrhyw fodd yn dilyn yr her gyfreithiol hon. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod gwersi wedi cael eu dysgu yn dilyn y broses hon. Cyfeiriwyd at yr angen i sicrhau bod holl adroddiadau a gyflwynir yn gyflawn yn un o'r gwersi hynny, drwy sicrhau nad oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gyflwynir. Pwysleisiwyd bod y wers hon wedi ei dysgu ar draws y Cyngor ac nid ar gyfer y maes hwn yn unig.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd tystion wedi cael eu galw yn ystod yr her gyfreithiol oherwydd natur yr achos.

Nodwyd oherwydd bod y dosbarthiadau defnydd a gyflwynwyd gan Llywodraeth Cymru yn newydd, nid oedd cynsail ar gyfer cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer y defnydd a bwriadwyd gan Gyngor Gwynedd. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Pennaeth Cynorthwyol bod y tri dosbarth defnydd newydd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022 yn parhau i fod yn weithredol ac mae modd i berchnogion newid dosbarth defnydd eu heiddo heb yr angen am gais cynllunio. Nodwyd nad oes diffiniad cyfreithiol o newid defnydd materol a bod hyn yn fater o ffaith a graddfa a bod angen i hyn gael ei ystyried yn unigol fesul achos, gan roi ystyriaeth i faterion fel amllder a graddfa defnydd. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oes modd atal newid dosbarth defnydd ar hyn o bryd gan nad yw cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol.

Mewn ymateb i gwestiwn yng nghyswllt Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod cyflwyno'r dosbarthiadau oedd yn caniatáu i awdurdodau lleol i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4, y debygol o fod yn arf a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn caniatáu ymateb cyflym. Tynnwyd sylw y byddai cyflwyno deddfwriaeth brimaidd newydd i gyflwyno'r cysyniad o'r angen am gais cynllunio er mwyn newid dosbarth defnydd eiddo yn broses araf gyda'r risg na fyddai'n llwyddo i dderbyn digon o gefnogaeth ar lefel genedlaethol gan fod y nifer o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a'u heffaith yn amrywio'n helaeth ar draws Cymru.. Cyfeiriwyd at Gynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor gan nodi bod y broses hon yn mynd i roi ystyriaeth i gyflwyno polisiâu cynllunio sydd yn ymwneud ac ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru. Amlygwyd nad oes modd atal colli eiddo sydd yn prif fan preswyl i'w trosi yn llety gwyliau tymor byr neu ail dai oherwydd nad oes rheolaeth arno. Fodd bynnag, mae modd gosod amod ar dai sydd yn rhan o ddatblygiadau newydd i fod yn prif fan preswyl yn unig.

Gofynnwyd pa fewnbwn a gafwyd gan drigolion Gwynedd wrth i'r Cyngor ystyried cyflwyno'r cyfarwyddyd. Mewn ymateb i'r ymholiad, manylodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd bod ymgysylltu cyhoeddus eang wedi cael ei wneud fel rhan o'r broses. Nodwyd bod hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda phob tî o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg a gosod rhybuddion safle. Eglurwyd bod swyddogion wedi rhoi ystyriaeth i bob ymateb a ddaeth i law. Esboniwyd nad oedd yr ymatebion yn cael eu grwpio i'r sylwadau hynny oedd o

blaid neu yn erbyn cyflwyno'r cyfarwyddyd. Fodd bynnag, eglurwyd bod swyddogion wedi rhoi ystyriaeth fanwl i bob safbwynt a data a gyflwynwyd.

Ategodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol bod yr her gyfreithiol hon wedi gwrthwynebu cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yng Ngwynedd ar 4 sail. Tynnwyd sylw bod tair sail gymhleth yr her wedi cael eu diddymu fel seiliau apêl gan y llysoedd, gyda dim ond un sail yn llwyddo. Amlygodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oedd y ffaith y bwriedir i'r cyfarwyddyd fod yn effeithio ar ardal cynllunio Gwynedd yn ei gyfanrwydd, wedi cael ei herio. Cadarnhawyd os byddai'r Cyngor yn penderfynu ymdrechu i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd, y byddai'n gwneud hynny gyda'r ardal gyfan yn debygol o fod mewn golwg unwaith eto. Cadarnhawyd byddai modd edrych ar gymunedau penodol o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, ystyriodd yr Aelodau y byddai'n synhwyrol i dderbyn cyngor cyfreithiol allanol ychwanegol ar ddiffiniadau terminoleg angenrheidiol y maes er mwyn sicrhau na fyddai modd cyflwyno unrhyw heriau cyfreithiol yn y dyfodol.

Derbyniwyd sylwadau gan Aelodau y dylid marchnata unrhyw ymgais yn y dyfodol i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd yng Ngwynedd mewn modd gwahanol er mwyn ennyn mwy o gefnogaeth. Manylwyd bod y gwaith hyd yma wedi arwain at nifer o lwyddiannau ac byddai gwneud trigolion yn hysbys o hynny yn effeithiol iawn ar gyfer unrhyw ymgais i'r dyfodol. Mynegwyd cefnogaeth i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd yn y dyfodol gan ei fod yn arf effeithiol i'r adran ac yn amddiffyn cymunedau Gwynedd. Holiwyd os yw'r Adran yn bwriadu mynd ati i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd a beth oedd y camau nesaf.

Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod Cabinet bod dyhead i ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd unwaith eto yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd nad oes cynlluniau pendant i wneud hynny ar hyn o bryd gan fod tymor y Cyngor hwn yn dirwyn i ben. Ymhelaethodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod y gwaith sydd wedi cael ei wneud fel rhan o'r broses hyd yma yn gallu cael ei aildefnyddio wrth ail-gychwyn y broses. Ystyriwyd bod cyllideb ddigonol i gwblhau'r broses pe byddai'n cael ei ail-gyflwyno. Adroddwyd bod arian grant o £402,330 gan Lywodraeth Cymru i baratoi a gweithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 yn lwyddiannus, gyda Chyngor Gwynedd yn cyfrannu swm cyfatebol o £400,000. Cadarnhawyd bod £465,654.53 wedi ei wario hyd yma (ar faterion staffio, gweinyddu a chyfreithiol) gan gadarnhau bod £336,675.37 yn weddill yn y gronfa os bwriedir ail-gyflwyno'r cyfarwyddyd.

Derbyniwyd diolchiadau gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen, Cyn-gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, am y cymorth ac arweiniad yr oedd yr Awdurdod wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd, drwy gydol y broses o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer yr awdurdod. Mewn ymateb i ymholiad am lwyddiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oedd unrhyw wahaniaeth yn eu proses hwy o'i gymharu â threfniadau Gwynedd. Amlygwyd, gan fod amserlen y Parc tu ôl i un y Cyngor, eu bod wedi gallu manteisio ar y wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr her gyfreithiol yn erbyn y broses yng Ngwynedd, gan sicrhau bod eu hadroddiadau yn cael eu haddasu i sicrhau bod cyfeiriad penodol at newid defnydd materol.. Ychwanegwyd nad oedd her gyfreithiol wedi cael ei gyflwyno yn erbyn Awdurdod y Parc o fewn y terfyn amser penodol.

Mewn ymateb i ymholiad, cydnabuodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad oedd y cyfarwyddyd yn weithredol yng Ngwynedd am ddigon o amser er mwyn gallu mesur ei effaith. Amlygwyd bod peth data ar gael ac fe fyddai'n cael ei asesu ond roedd yn anodd gwybod ar hyn o bryd os oedd unrhyw effaith yn sgil y cyfarwyddyd yntau mesurau arall sydd ar waith i fynd i'r afael ac ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr .

Ar ddiwedd y drafodaeth, cadarnhaodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, (cyn-aelod Cabinet a oedd yn rhan o benderfyniad y Cabinet i gymeradwyo cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei gyfarfod ym Mehefin 2023), ei fod yn ymwybodol o 'newid defnydd materol' ac yn ymwybodol o'r wybodaeth berthnasol cyn dod i benderfyniad.

Diolchwyd am yr adroddiad

Penderfynwyd:

- 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- 2. Argymhell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd bod angen rhoi ystyriaeth fanwl o ran 'newid defnydd materol' a'r angen i dderbyn cyngor cyfreithiol allanol wrth ystyried y camau nesaf.**

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd a Phenathiaid Cynorthwyol yr Adran.

Atgoffwyd bod yr Adran yn arwain ar nifer o brosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28 sef;

- Gwynedd Glyd
 - Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr
- Gwynedd Werdd
 - Cynllun Datblygu Lleol newydd
 - Gwastraff ac Ailgylchu
 - Teithio Llesol
 - Trafnidiaeth Gyhoeddus

Cyfeiriwyd at nifer o brosiectau'r Adran yn ogystal â mesuryddion perfformiad, gan groesawu sylwadau a chwestiynau gan yr Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Gwasanaeth Cynllunio

Cydnabuwyd bod straen wedi bod ar swyddogion y gwasanaeth cynllunio yn ddiweddar, gan ddiolch iddynt am eu gwaith ac ymfalchïo fod y gwasanaeth yn manteisio ar gyfleon Cynllun Yfory y Cyngor. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd yr Adran, eu bod wedi cymryd mantais o Gynllun Yfory'r Cyngor er mwyn penodi aelodau staff a'u hyfforddi i fod yn gymwys. Nodwyd bod posibilrwydd bydd Hyfforddai Polisi Cynllunio yn cael ei gynnal yn fuan. Cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn cynllunio gweithlu yn effeithiol ac er yn cydnabod trosiant staff, mae swyddogion newydd yn cael eu penodi er mwyn cyflawni'r gwaith.

Pryderwyd bod y Cyngor mewn risg o golli arbenigedd ymysg swyddogion cynllunio. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuwyd bod peth arbenigedd yn cael ei golli wrth i swyddogion adael eu rolau, ond sicrhawyd bod defnydd o Gynllun Yfory a chynllunio gweithlu effeithiol yn sicrhad nad oes risg sylweddol o golli arbenigedd.

Gorfodaeth Cynllunio

Mewn ymateb i ymholiad ar gyfraddau Gorfodaeth Cynllunio, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol bod swyddogion yn ymateb i gwynion ar faterion gorfodaeth pan yn briodol. Eglurwyd bod sefyllfaoedd yn codi ble mae unigolion yn anhapus gyda barn swyddogion ac mae trefniadau statudol yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu apelio

os dymunir. Tynnwyd sylw ei fod yn heriol i leihau nifer o alwadau gorfodaeth sydd yn cael eu derbyn oherwydd materion staffio, ond hyderwyd bod modd ymdrin â'r mater hwn wrth i niferoedd o aelodau staff cymwys gynyddu.

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod yr amserlen i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar amser, ond mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw cefnogi staff.

Teithio Llesol

Mewn ymateb i gais am ddata o ddefnydd a chynlluniau teithio llesol mewn ardaloedd gwledig o'r Sir, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod modd rhannu'r wybodaeth honno y tu hwnt i'r cyfarfod hwn.

Gwastraff ac Ailgylchu

Ystyriwyd os oes cynlluniau ar waith er mwyn casglu plastigion meddal er mwyn cynyddu canran o wastraff a ailgylchir yng Ngwynedd. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod trefniadau ar waith er mwyn casglu plastigion meddal fel rhan o gylchdeithiau, o fis Ebrill 2027 ymlaen. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda Chyngor Bro Morgannwg ar hyn o bryd, er mwyn chwilio am arfer dda, gan eu bod eisoes wedi rhoi'r gwasanaeth hwn ar waith. Nodwyd bod ymgorffori casgliadau o'r math hwn yn gallu arwain at gost sylweddol oherwydd yr angen i gynnwys cynlluniau newydd yn ogystal â chostau prosesu'r gwastraff. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod y gwaith o gasglu'r plastigion meddal yn effeithiol, gan fod tebygolrwydd y bydd archfarchnadoedd yn dirwyn y gwasanaeth i ben unwaith bydd y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb ohono. Adroddwyd bod y prosesau sydd ar waith ym Mro Morgannwg yn effeithiol iawn, a bod yr Adran yn ei ffafrio. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai dim ond oddeutu 1% o holl wastraff Gwynedd yw plastigion meddal ac ni fyddai'n effeithio'n ormodol ar dargedau ailgylchu.

Gofynnwyd os yw swyddogion yn credu bod ailgylchu 70% o wastraff y Sir yn darged cyraeddadwy. Mewn ymateb i'r ymholiad ar gyfraddau ailgylchu, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet nad oedd pwysau yn cael ei roi i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o fod yn ailgylchu 70% o wastraff y Sir. Ymhelaethwyd bod technoleg newydd yn cael ei ddatblygu'n gyson a fyddai'n cynorthwyo'r Adran i gyrraedd y targedau hyn i'r dyfodol megis teclyn ailgylchu sydd yn dyrannu arian i ddefnyddwyr am ei ddefnyddio. Sicrhawyd ei fod o'r farn y dylid ailgylchu 100% o holl wastraff y Sir ac y bwriedir cynyddu faint o wastraff sydd yn cael ei ailgylchu i geisio cyrraedd y targed hwnnw cyn belled a sy'n bosib.

Mewn ymateb i ymholiad pellach am farn y swyddogion os oedd targed Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o holl wastraff y Sir yn realistig o ystyried nad oes cynnydd mawr yng nghyfraddau ailgylchu'r Sir i gyfarch y targed, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod holl Awdurdodau Lleol Cymru yn mesur eu llwyddiant yn erbyn y targed hwn yn wahanol. Nodwyd hefyd bod cyfraddau Gwynedd yn erbyn y targed hwn yn amrywio yn flynyddol megis drwy gyfraddau gwastraff gardd, sydd yn cael ei gynnwys o fewn y ffigyrau ar y cyd gyda gwastraff anheddau, busnesau, biniau stryd a chanolfannau ailgylchu. Amlygwyd bod Strategaeth Gwastraff yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd er mwyn cynllunio sut mae'r Adran yn mynd i'r afael â hyn, gan gadarnhau ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

Cytunwyd gyda sylwadau Aelodau y dylid rhoi pwysau ar gwmnïau, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod modd ailgylchu pob math o becynnau nwyddau.

Mewn ymateb i gais am wybodaeth ychwanegol am ddata yn ymwneud â salwch staff y Gwasanaeth Ailgylchu, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran y byddai'n ei rannu y tu hwnt i'r cyfarfod. Fodd bynnag, eglurwyd bod yr Adran yn gweithio i leihau cyfraddau salwch y gweithlu ac wedi cymryd camau megis lleihau niferoedd depo ailgylchu o fewn y Sir, fel bod modd cynllunio gweithlu yn fwy effeithiol os oes salwch yn codi. Eglurwyd bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wneud gan fod cyfraddau salwch staff yn amrywio o ardal i ardal yn y Sir ac mae lleihau'r niferoedd depo yn caniatáu cynllunio gweithlu yn rhwyddach.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC, ynghyd â Phennaeth a Phennaeth Cynorthwyol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC.

Atgoffwyd bod yr Adran yn weladwy iawn o fewn y Sir gan ei fod yn cyflawni gwasanaethau rheng flaen. Ymfalchiwyd bod Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n effeithiol iawn ac yn dod ag incwm i'r Cyngor tra hefyd yn cynorthwyo adrannau eraill i ddatblygu cynlluniau.

Adroddwyd bod yr Adran yn arwain ar nifer o brosiectau Cynllun y Cyngor 2023-28 sef;

- Gwynedd Yfory
 - Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir
- Gwynedd Werdd
 - Gweithredu ar risgiau llifogydd
 - Cymunedau Glân a Thaclus

Tynnwyd sylw at dargedau arbedion ariannol yr Adran gan nodi bod nifer o'r targedau wedi eu cyfarch ond bod mwy o waith i'w wneud. Hyderwyd y bydd y targedau hynny yn cael eu cyfarch o fewn y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd – Cyflwr Ffyrdd

Mynegwyd tristwch am ddigwyddiad angheuol a fu'n ardal Bermo yn ddiweddar. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuwyd bod gwersi angen eu dysgu o'r digwyddiad hwnnw, ble nad oedd modd i wasanaethau brys gyrraedd yr ardal mewn pryd, gyda materion traffig a chynnal priffyrdd wedi ychwanegu at yr her. Cadarnhawyd bod adolygiad i mewn i'r digwyddiad a threfniadau eisoes wedi cael eu cynnal a bod cyfarfod arall yn cael ei gynnal yn fuan, ble fydd modd i Aelodau etholedig lleol mewnbynnu i'r drafodaeth.

Mewn ymateb i ymholiad, cydnabuwyd bod niferoedd ffyrdd dosbarth A, B ac C sydd yn adrodd yn goch (cyffredinol wael ac yn debygol o angen gwaith cynnal arfaethedig yn fuan) ar gynnydd. Fodd bynnag, pwysleisiodd Pennaeth yr Adran nad oedd yn sefyllfa bryderus ar hyn o bryd, gan gadarnhau bod cyfraddau safon ffyrdd yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Amlygwyd yr ystyrir bod cadw cyflwr ffyrdd sydd yn adrodd yn goch o dan 8% yn dderbyniol, gan adrodd bod 4.2% o ffyrdd dosbarth A, 5.2% o ffyrdd dosbarth B ac 13.2% o ffyrdd dosbarth C yn adrodd mewn cyflwr drwg ar hyn o bryd. Cydnabuwyd bod gwaith i'w wneud er mwyn lleihau'r cyfraddau hyn ar gyfer ffyrdd

dosbarth C, gan egluro eu bod yn ffyrdd gwledig fel rheol, gan amlygu bod canran uchel o'r ffyrdd yng Ngwynedd yn disgyn i mewn i'r dosbarth hwn.

Eglurwyd y defnyddir sganwyr pwrpasol i adolygu'r ffyrdd pob blwyddyn, neu bob dwy flynedd os yw'r ffyrdd yn safonol. Adroddwyd bod yr Adran wedi derbyn buddsoddiad o £2.8miliwn gan LGBI (Local Government Borrowing Initiative) i ddatblygu'r trefniant hwn ac mae'n arf grêt i'r Adran wrth geisio rhaglenni gwaith yn effeithiol gan fod modd blaenoriaethu'r ffyrdd sydd angen y gwaith fwyaf.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith gan nodi nifer o sylwadau o gyflwr ffyrdd boddhaol yng Ngwynedd.

Gwasanaeth Fflyd

Cyfeiriodd aelodau at darged afrealistig Llywodraeth Cymru o sicrhau bod 100% o gerbydau'r fflyd yn gerbydau gwyrdd erbyn 2030. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod cynnydd da wedi'i wneud o fewn y gwasanaeth fflyd, gyda chanran uchel o geir a faniau bychan bellach yn gerbydau gwyrdd. Fodd bynnag, adroddwyd nad oes modd i gyfnewid cerbydau trwm a pheirianyddol i rai gwyrdd ar hyn o bryd oherwydd nad yw'r dechnoleg wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Eglurwyd byddai'n aneffeithiol i'w newid ar hyn o bryd oherwydd heriau gwefru ac effeithlonrwydd. Adroddwyd bod nifer o gerbydau'r fflyd bellach yn rhai trydan neu hybrid ac mae ystyriaeth yn cael ei roi i gerbydau hydrogen ar gyfer cerbydau trwm a pheirianyddol. Er hyn, cydnabuwyd ei fod yn annhebygol bydd y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyfarch yn amserol.

Derbyniwyd pryderon na fyddai'r grid cenedlaethol yn gallu ymdopi gyda'r galw am drydan yn sgil y cynnydd mewn defnydd o gerbydau trydan yn genedlaethol. Mewn ymateb i ymholiad pellach, cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod cyflenwad pwyntiau gwefru digonol yn cael eu cyflwyno ar draws y Sir, ac mae'r Adran yn cysylltu gyda chwmnïau cyflenwad trydan yn aml i sicrhau eu bod yn cael eu hychwanegu i'r grid.

Tîm Tacluso Ardal Ni

Derbyniwyd nifer o sylwadau cadarnhaol am y tîm a'r gwaith effeithiol maent yn ei gyflawni o fewn yr Adran.

Torri Gwair ac Ymylon Ffyrrdd

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth yr Adran bod y gwaith o dorri gwair ac ymylon ffyrdd yn cael ei wneud yn fewnol mewn unrhyw ardal o fewn ffiniau 30mya. Ymhelaethwyd bod contractwr allanol yn cael ei benodi drwy dendr ar gyfer unrhyw ardal arall o fewn y Sir. Nodwyd bod trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau bod y gwair yn cael ei gasglu yn fuan wedi iddo gael ei dorri, gan gydnabod bod yr Adran yn derbyn sylwadau nad yw hyn yn gweithio'n effeithiol ar bob achlysur. Pwysleisiwyd bod yr Adran yn cynnal cyfarfodydd gyda'r contractwr yn wythnosol a gall unrhyw bryderon sydd yn cael eu codi, eu cyfarch yn y cyfarfodydd hynny.

Derbyniwyd sylwadau bod sbwriel i'w weld ar ymylon ffyrdd pan mae'r gwair yn cael ei dorri, gan ystyried os oes datrysiad ar gyfer ei gasglu'n amserol. Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth yr Adran bod angen newid ymddygiad pobl er mwyn sicrhau nad ydynt yn taflu gwastraff o'u cerbydau. Eglurwyd nad oes modd casglu'r sbwriel cyn torri'r gwair ond mae trefniadau mewn lle i sicrhau bod y Gwasanaeth Edrychiad Stryd yn ei gasglu yn fuan wedyn.

Meysydd Chwarae

Ymholwyd am wybodaeth ar y broses o adnewyddu meysydd chwarae a sut mae'r Adran yn asesu'r galw yn ogystal â pha offer sydd eu angen o fewn y lleoliadau. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod grant wedi cael ei dderbyn er mwyn adnewyddu 29 o feysydd chwarae ar draws y Sir, gan nodi y gobeithir bydd mwy o arian grant yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol. Eglurwyd nad oes trefniadau pendant er mwyn penderfynu ble mae'r arian hynny yn cael ei ddefnyddio ond nodwyd bod swyddog yn cynnal archwiliadau misol ar y 120 o feysydd parcio sydd yng Ngwynedd. Ychwanegwyd bod yr adolygiadau hyn yn arwain at raglen waith o beth sydd angen ei addasu neu ei ddiweddarau yn y dyfodol. Ategodd yr Aelod Cabinet bod modd i Gynghorau Cymuned brynu offer i'r meysydd chwarae mewn cydweithrediad gyda'r Adran os ydynt yn dymuno.

Cynlluniau Arbedion

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd Pennaeth yr Adran bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod unrhyw orwariant yn cael ei leddfu'n effeithiol tra bod gwasanaethau yn parhau. Cadarnhawyd bod hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor gan nodi bod adolygiadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn ystyried eu heffeithlonrwydd. Eglurwyd bydd hyn yn caniatáu i wasanaethau gael eu hail-gyflwyno mewn modd mwy effeithiol i'r dyfodol megis Edrychiad a Glanhau Stryd a Chynnal Tiroedd, yn hytrach na chyflwyno toriadau.

Cyfraddau Salwch

Gofynnwyd am ddata ychwanegol am y rhesymau pam bod cyfraddau salwch yn cynyddu ac am unrhyw resymau penodol pam bod aelodau staff i ffwrdd o'r gwaith. Mewn ymateb i'r ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran eu bod yn gymharol i'r hyn a welir yn adrannau eraill y Cyngor. Cadarnhaodd bod trefniadau cefnogi mewn lle ar gyfer pob aelod o staff sydd yn anhwylyd, yn enwedig yr aelodau staff hynny sydd i ffwrdd o'r gwaith yn hirdymor. Pwysleisiwyd nad yw cyfraddau salwch yr Adran yn arwain at newid gweledol i wasanaethau ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 1:35yp

CADEIRYDD